# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 29/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gwastraff

**C11 Sandy Mewies :** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y technolegau trin gwastraff y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu ffafrio? OAQ(3)2976(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', strategaeth wastraff ddiwygiedig Cymru, yn hybu dull ailgylchu sy'n didoli'r deunyddiau yn eu tarddle a'r defnydd gorau posibl o ddeunyddiau ailgylchu a gwastraff gweddilliol. Y technolegau sydd orau gennym yw treulio anerobig ar gyfer gwastraff bwyd a ddidolir yn y tarddle ac adfer ynni o'r 30 y cant o wastraff sy'n weddill yn dilyn ailgylchu, yn unol â'r hierarchaeth wastraff.

### Cefnogaeth ar gyfer Cleifion Canser

**C12 Val Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu cefnogaeth ar gyfer cleifion canser yng Nghymru? OAQ(3)2987(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i fyrddau iechyd lleol gynllunio, trefnu a darparu gofal a chymorth canser o ansawdd uchel i gleifion yn unol â'r safonau canser cenedlaethol yn eu poblogaethau preswyl.

### Ysbyty Fairwood

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Ysbyty Fairwood? OAQ(3)2989(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Ysbyty Fairwood yn parhau i dderbyn cleifion sydd wedi'u rhyddhau o brif ysbytai'r ardal. Byddai ymgynghoriad manwl â staff, y cyhoedd, y sector gwirfoddol a sefydliadau partner eraill, ar unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.

### Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

**C14 William Graham**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru? OAQ(3)2981(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae cofnodion amgylcheddol hanesyddol yn rhoi gwybodaeth am safleoedd archeolegol, tirweddau hanesyddol ac adeiladau. Maent yn cael eu cynnal a'u cadw gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru ac yn chwarae rhan hollbwysig o ran helpu i ddatblygu cyngor rheoli datblygu i awdurdodau lleol, cefnogi ymchwil ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn nhreftadaeth Cymru.

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**C15 Andrew R.T. Davies:** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cwrdd nesaf â'r Gweinidog dros

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod dyfodol y gwasanaeth iechyd gwladol? OAQ(3)2990(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn trafod dyfodol GIG Cymru gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd. Ein blaenoriaethau yw cwblhau'r broses o roi ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ar waith.